



Deddfwriaeth Newydd Ynghylch Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn Cryfhau Llais Dioddefwyr

Mae llais dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'i gryfhau yn sgil cyflwyno'r Sbardun Cymunedol.

Dyma gynllun newydd i'r Deyrnas Unedig, ac mae prosesau wedi'u sefydlu yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Powys a Sir Benfro fel y gall pobl ddefnyddio'r grym newydd.

Caiff unigolion, busnesau a chymunedau sydd wedi dioddef o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol, trosedd casineb neu ddigwyddiad casineb ymgeisio am Sbardun Cymunedol, a allai arwain at adolygu eu hachos. Mae trosedd neu ddigwyddiad casineb yn drosedd neu ddigwyddiad sy'n ymwneud â hil, crefydd neu gred, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu statws trawsrywiol. Caiff rhywun wneud cais ar ran dioddefwr hefyd, cyhyd â bod y dioddefwr yn cydsynio.

Er mwyn i gais am Sbardun lwyddo, rhaid bodloni meini prawf penodol. Mae angen bod unigolyn wedi cwyno am ymddygiad gwrthgymdeithasol o leiaf teirgwaith o fewn chwe mis, neu fod o leiaf pum cwyn am ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi dod o bobl wahanol mewn un ardal, neu fod un gŵyn wedi'i gwneud am drosedd neu ddigwyddiad casineb. Gallai'r cwynion wedi mynd i unrhyw un o'r sefydliadau partner sy'n cydweithio i ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan gynnwys yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, a darparwyr tai cofrestredig.

Dywedodd Prif Arolygydd Dros Dro Ross Evans: "Ar adegau, caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol effaith fawr ar ein cymunedau. Gallaf addo i gymunedau ar draws y pedair sir yn ein hardal bod gwaith partneriaeth cryf ar y gweill yn barod. Mae'r heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd a darparwyr tai cofrestredig yn cydweithio i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol.

"Fodd bynnag, mae cyflwyno'r cynllun Sbardun Cymunedol yn rhoi cyfle newydd i ddioddefwyr ofyn am adolygiad o achosion a riportwyd lle na wnaed dim, neu le mae'r dioddefwyr yn tybio bod yr hyn a wnaed yn annigonol. "

I ofyn am Sbardun Cymunedol, galwch 101 am ffurflen gais.

Cewch ymateb o fewn 20 diwrnod yn nodi a fu'ch cais yn llwyddiannus ai peidio.

Caiff y cais ei drafod mewn cyfarfod amlasiantaethol, ac os bydd yn llwyddiannus, caiff cynllun gweithredu ei lunio i ymateb i'r problemau a godwyd.